# Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach

## Ein strategaeth i helpu pobl a chymunedau hyd at 2040



Crynodeb ar gyfer yr ifanc

# Helo

Ni yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Rydym yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer bron i 400,000 o bobl ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a'n cymunedau cyfagos.

Mae gennym ni:

- pedwar prif ysbyty
- pum ysbyty cymunedol
- dwy ganolfan gofal integredig
- cyfleusterau cymunedol fel:
  - meddygfeydd
  - deintyddfeydd
  - fferyllfeydd
  - optometryddion (gofal llygaid)
  - timau iechyd cymunedol
  - canolfannau iechyd
  - gwasanaethau iechyd meddwl
  - gofal yn eich cartref eich hun







# Ein strategaeth

Ry'n ni wedi adfywio ein Strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach. Mae'n nodi sut y byddwn yn cefnogi pobl hyd at 2040.

Mae'n egluro sut rydym yn bwriadu helpu pobl i gadw'n iach.

## Pam y cafodd ei adfywio?

Cafodd y cynllun ei adfywio oherwydd:

- mae bywyd wedi newid ers 2018
- mae angen cymorth ar fwy o bobl
- nid yw rhai gwasanaethau'n gallu parhau i redeg fel y maen nhw wedi gwneud erioed
- mae arian ac adnoddau yn fwy prin
- mae'r gwasanaeth iechyd wedi dysgu pethau newydd

### Beth sy'n bwysig

Ry'n ni eisiau helpu pobl o bob oed i:

- byw bywydau iachach
- aros yn iach am hirach
- cael gofal amserol a diogel

### Rwyt ti'n rhan o hyn hefyd.

Mae dyfodol iachach yn dibynnu ar bob un ohonom cymunedau, teuluoedd, a phobl ifanc fel ti. P'un a yw'n ymwneud ag aros yn actif, cefnogi ffrind, neu ddweud eich barn wrthym - mae pob cam yn cyfrif.

# Am y strategaeth

Mae hyn yn ymwneud â helpu pobl i gael bywydau iachach:

- atal pobl rhag mynd yn sâl pan allwn ni
- cefnogi pobl yn eu cymunedau lleol
- deall yr holl bethau a all effeithio ar iechyd—cartrefi, arian, deiet a chymorth
- sicrhau bod gan bobl ddyfodol iach

Mae'n ymwneud â phobl yn cael y cymorth cywir, ar yr amser iawn.

**Beth sy'n newid?**

Mae gwasanaethau iechyd yn newid. Dy'n nhw ddim yn ymwneud â thrin pobl pan fyddant yn sâl yn unig.

Ry'n ni eisiau helpu pobl i aros yn iach a rhoi cymorth yn gynnar, cyn i broblemau waethygu.

Ond mae hefyd yn ymwneud â phob un ohonom yn chwarae ein rhan - edrych ar ôl ein gilydd, cadw mewn cysylltiad, a helpu ein cymunedau i aros yn iach.

# Ein gweledigaeth

## Ry'n ni eisiau i bawb gael bywydau iachach, gyda'r cymorth cywir i aros a byw'n iach



### Dechrau a datblygu'n dda

Mae hyn yn ymwneud â babanod, plant a phobl ifanc. Mae'n golygu:

- rhoi'r dechrau gorau posib i bob plentyn
- helpu plant i dyfu, dysgu, ac aros yn iach
- cefnogi arferion da sy'n helpu gydol oes



### Byw a gweithio'n dda

Mae hyn yn ymwneud ag oedolion. Mae'n golygu:

- byw mewn cymunedau cryf, cefnogol
- cael cymorth i gadw'n iach gartref ac yn y gwaith
- gofalu amdanat ti dy hun a'ch gilydd



### Heneiddio'n dda

Mae hyn yn ymwneud â phobl hŷn. Mae'n golygu:

- aros yn iach
- byw'n dda ac yn ddiogel
- cael cymorth i aros yn annibynnol cyhyd â phosibl

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein strategaeth, mae gennym bedwar amcan ac wyth nod.

**Ein pedwar amcan yw:**

- cael timau ffyniannus - cael timau cryf, iach
- cael cymunedau iachach
- rhoi gofal gwych
- adeiladu dyfodol cadarnhaol

# Cael timau cryf, iach

**Ry’n ni am i staff deimlo’n dda ac yn hyderus yn y gwaith. Ry’n ni eisiau iddyn nhw weithio’n dda gyda’i gilydd, mwynhau eu swyddi, a theimlo’n falch o’r gofal maen nhw’n ei roi.**

## Nod 1: Adeiladu timau cryf, iach

Byddwn yn cefnogi staff fel eu bod:

- yn teimlo’n werthfawr
- yn teimlo’n hyderus yn eu rolau
- yn garedig ac yn ofalgar hyd yn oed pan fyddan nhw dan bwysau.
- yn cael popeth sydd ei angen i wneud eu gwaith yn dda

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Rwyt ti’n cael gofal caredig, tosturiol
- Rwyt ti’n cael profiad cadarnhaol



## Nod 2: Cael gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Byddwn yn cefnogi staff fel eu bod:

- yn garedig, yn gymwynasgar ac yn cyfathrebu’n glir
- yn gwrando ac yn cefnogi pobl
- yn ceisio deall beth sydd ei angen ar bobl
- yn rhoi’r help cywir y tro cyntaf y bydd rhywun yn gofyn amdano

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Rwyt ti’n teimlo bod rhywun yn gwrando arnat ti a dy fod yn cael cymorth
- Rwyt ti’n cael y wybodaeth a’r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn
- Mae staff yn cyfathrebu’n glir ac yn rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen arnat ti

# Cael cymunedau iachach

**Ry'n ni eisiau atal pobl rhag mynd yn sâl, nid dim ond eu trin pan fyddan nhw'n sâl.**
**Ry'n ni eisiau helpu pobl i fyw bywydau iach lle maen nhw'n byw, yn eu cymuned yn gyntaf.**

## Nod 3: Canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf – 20pedwar7

Byddwn yn sicrhau:

- ein bod yn canolbwyntio ar yr 20% o gymunedau sydd angen y cymorth mwyaf
- bod pobl yn cael help i gadw'n iach drwy fynd i'r afael â 4 risg iechyd mawr – rhoi'r gorau i ysmygu, bwyta'n iachach, yfed llai o alcohol a bod yn fwy actif
- bod pobl yn cael cymorth yn gyflym cyn i bethau waethygu
- ein bod yn canolbwyntio ar y problemau iechyd mwyaf sy'n effeithio ar fywydau pobl - canser, problemau'r galon, iechyd meddwl, diabetes, problemau ysgyfaint, iechyd babanod a rhieni a chadw pobl yn gryf i atal cwympiadau

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Mae cymorth yn mynd i'r bobl a'r lleoedd sydd ei angen fwyaf
- Ry'n ni'n canolbwyntio ar y pethau sydd fwyaf tebygol o dy gadw di a dy gymuned yn iach
- Rwyt ti'n cael cymorth yn gynharach, cyn i broblemau waethygu



## Nod 4: Cynllunio gofal fel ei fod yn agos at ble rwyt ti'n byw.

Byddwn yn sicrhau:

- bod mwy o ofal yn digwydd yng nghartrefi pobl a chymunedau lleol
- bod staff yn sylwi ar broblemau'n gynt ac yn cynnig cymorth yn gyflym
- bod pobl yn gallu cael cymorth mewn lleoedd fel meddygfeydd, fferyllfeydd a gwasanaethau cymunedol
- bod ysbytai yn canolbwyntio ar bobl sydd angen y gofal mwyaf pwysig
- bod ysbytai yn llai prysur ac mae amseroedd aros yn fyrrach
- bod gofal yn ddiogel ac yn bodloni'r safonau iechyd cywir
- os bydd gwasanaeth yn symud i le newydd, bydd yn dal yn ddiogel ac yn cyrraedd yr un safonau iechyd

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Rwyt ti'n cael cefnogaeth yn gyflym a does dim rhaid i ti aros
- Rwyt ti'n cael gofal yn nes at dy gartref
- Rwyt ti'n cael help yn y lle iawn, nid bob amser mewn ysbyty
- Os bydd gwasanaethau'n newid, byddan nhw dal yn ddiogel ac yn agos atat ti

# Rhoi gofal gwych

**Ry'n ni am i ofal fod yn ddiogel, ar amser ac yn gweithio'n dda.**
**Ry'n ni am i bobl gael gwybodaeth glir a mwy o reolaeth dros eu gofal.**

## Nod 5: Rhoi gwahanol ffyrdd i bobl gael gwybodaeth a gofal, gan gynnwys opsiynau digidol

Byddwn yn sicrhau:

- ei fod yn hawdd cael gofal ar-lein
- gall pobl gael cyngor, trefnu apwyntiadau a gweld canlyniadau ar-lein
- gall pobl gael rhywfaint o ofal heb fod angen teithio
- bod gwasanaethau digidol yn cysylltu'n dda
- gall pobl sydd ddim yn gallu neu ddim eisiau defnyddio offer digidol gael cymorth mewn ffyrdd eraill

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Galli di gael cymorth ar-lein
- Efallai na fydd angen i ti deithio i gael gofal
- Galli di barhau i gael cymorth mewn ffyrdd eraill os na allet ti fynd ar-lein

## Nod 6: Rhoi gofal sy'n ddiogel, ar amser, ac sy'n gweithio'n dda

Byddwn yn sicrhau:

- gofal yn rhoi pobl yn gyntaf ac yn diwallu eu hanghenion
- gofal yn ddiogel ac yn bodloni'r safonau iechyd cywir
- pobl yn cael cymorth yn gynt, cyn i broblemau waethygu
- gofal yn cael ei roi yn y lle iawn ar gyfer dy anghenion

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Rwyt ti'n cael gofal diogel
- Rwyt ti'n cael cymorth pan fydd ei angen, heb oedi



# Adeiladu dyfodol cadarnhaol

**Ry'n ni am gynllunio ar gyfer heddiw a'r dyfodol.**
**Ry'n ni am i blant a phobl ifanc gael dweud eu dweud wrth lunio gwasanaethau fel eu bod yn gweithio'n dda i bawb.**

## Nod 7: Cynllunio a pharatoi ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn sicrhau:

- bod gwasanaethau mewn cymunedau yn cydweithio'n dda
- bod plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud a bod pobl yn gwrando arnyn nhw
- bod pobl yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iach
- ry'n ni'n gofalu am ein hamgylchedd ac yn ceisio lleihau'r effaith a gawn arno
- bod gwasanaethau yn parhau i wella ar gyfer y dyfodol

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Mae pobl yn gwrando arnat ti
- Rwyt ti'n cael help i gadw'n iach
- Mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i wella pethau



## Nod 8: Cael adeiladau a gwasanaethau sy'n fodern ac yn gweithio'n dda

Byddwn yn sicrhau:

- bod adeiladau yn ddiogel, yn fodern ac yn hawdd i'w symud o gwmpas
- bod adeiladau hŷn yn cael eu gwella
- bod offer digidol yn gweithio'n dda ac yn syml i bawb eu defnyddio
- bod gwasanaethau wedi'u cynllunio fel y gallan nhw barhau i weithio'n dda yn y dyfodol
- bod ein dewisiadau yn well ar gyfer yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol

**Beth mae hyn yn ei olygu i ti**

- Rwyt ti'n defnyddio adeiladau a gwasanaethau sy'n ddiogel ac yn hawdd eu defnyddio
- Rwyt ti'n gallu dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas yn haws
- Rwyt ti'n cael gofal mewn lleoedd sy'n gweithio'n dda ar dy gyfer nawr ac yn y dyfodol

# Gwneud iddo weithio

Ry'n ni eisiau i'r cynllun hwn weithio a gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl. Felly, byddwn yn:

- cynllunio arian, staff ac amser yn ofalus
- casglu a defnyddio gwybodaeth yn well
- defnyddio systemau digidol sy'n cysylltu ac yn cydweithio'n dda
- cael adeiladau modern a all newid wrth i anghenion newid
- gweithio gyda phartneriaid ac ymchwilwyr i ddod o hyd i syniadau newydd a gwella sut rydym yn gweithio
- gwrando ar bobl a gweithio gyda chymunedau
- bod yn agored ac yn onest am y penderfyniadau y mae angen inni eu gwneud
- gwirio beth sy'n gweithio a pharhau i wella



# Camau Nesaf

Ry'n ni eisiau clywed gen ti a gweithio gyda thi i lunio'r hyn sy'n dod nesaf. Byddwn yn parhau i wrando, bod yn onest am ein dewisiadau, a gweithio gyda thi i greu dyfodol iachach.

## Mae eich llais yn bwysig

Os hoffet ti gael gwybod mwy a dweud dy ddweud, ymunwch â'n cynllun ymgysylltu a chynnwys cymunedol, Siarad Iechyd, Talking Health, ewch i **biphdd.gig.cymru/siarad-iechyd-talking-health/**

neu sganiwch y cod QR

Gweld diweddariadau ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:

- facebook.com/bwrddiechydhyweldda
- instagram.com/hywelddauhb
- youtube.com/hywelddahealthboard1